# Diweddaru Teithio Llesol

Ers cyflwyno ein rhwydwaith peiriannau cyfrif yn 2017 rydym wedi gweld cynnydd mawr yn nifer y teithiau cerdded a beicio a gofnodwyd o amgylch Sir Gaerfyrddin. Er bod cyflwyno peiriannau cyfrif ychwanegol a methiant hen beiriannau cyfrif hefyd wedi dylanwadu ar y cynnydd hwn yn nifer y defnyddwyr ledled y rhwydwaith, mae'r cynnydd sydyn yn 2020 yn adlewyrchu cynnydd mewn teithiau Teithio Llesol yn ystod cyfyngiadau symud Coronafeirws. Yn ddiweddar, rydym wedi derbyn dros £1.7 miliwn o gyllid Trafnidiaeth Gynaliadwy gan Lywodraeth Cymru i wella'r seilwaith cerdded a beicio a sicrhau bod y newidiadau ymddygiadol cadarnhaol a wnaed gan bobl yn parhau. Caiff y cyllid hwn ei ddefnyddio ledled y sir i fanteisio i'r eithaf ar ddichonoldeb dulliau Teithio Llesol wrth gadw pellter cymdeithasol.




Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council







Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council